# Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: arferion gorau



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 213/2017
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2017

# Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: arferion gorau

**Cynulleidfa**
Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol; perchnogion ysgolion annibynnol; penaethiaid sefydliadau addysg bellach; sefydliadau addysg uwch; undebau staff ysgolion; undebau athrawon; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol; cwmnïau darlledu; cwmnïau theatr; cyrff operatig; cyrff gwirfoddol ac elusennol sy'n gweithio gyda phlant neu sydd ag aelodau sy'n blant (gan gynnwys staff yn y cyrff hynny sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant).

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn cynnig senarios a syniadau ynglŷn â sut i ystyried a datrys rhai o'r prif broblemau mewn perthynas â thrwyddedu.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-Adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1280
e-bost: keepinglearnerssafe@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31153 ISBN digidol 978 1 4734 9151 9

**Dogfennau cysylltiedig**

Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 Rhif. 1757 (W. 242)
www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1757/contents/made

*Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant* (2015)
www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?lang=cy

*Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: Enghreifftiau a gwybodaeth* Crynodeb i blant a phobl ifanc (2017)
www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?lang=cy

*Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (2015)
www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy

*Cod Darlledu Ofcom*
https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**1. Senarios** **3**

Sioe gerdd ysgol 3

Grŵp ieuenctid 5

Teledu 7

'Realaeth' 9

**2. Materion allweddol** **11**

Asesu risg 11

Cydweithio 14

Y rheol pedwar diwrnod 17

Llety a theithio 19

Seibiannau a therfynau amser 21

Hebryngwyr 22

Canllawiau cryno i athrawon drama, ymarferwyr a rheolwyr eraill 25

**3. Rhestri gwirio: Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015** **28**

Adroddiad arolygu llety 28

Rhestr wirio ar gyfer hebryngwyr trwyddedig – cyrraedd y lleoliad 30

Rhestr wirio ar gyfer awdurdod trwyddedu neu awdurdod sy'n derbyn – perfformiad 32

**4. Ffurflenni cais enghreifftiol: Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015** **36**

Ffurflen gais enghreifftiol am drwydded perfformiadau a gweithgareddau plant (Cymru) ar gyfer plant sy'n [byw/cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd] o fewn ffiniau Cyngor [dinas/sir/bwrdeistref sirol] 36

Ffurflen gais enghreifftiol am drwydded perfformiadau a gweithgareddau plant (Cymru): datganiad y pennaeth 47

Ffurflen gais enghreifftiol (Cymru) ar gyfer Cymeradwyaeth Corff o Bersonau fel eithriad rhag gofynion trwyddedu ar gyfer perfformiad(au) i'w cynnal o fewn ffiniau Cyngor [Dinas/Sir/Bwrdeistref Sirol] 49

Cymeradwyaeth Corff o Bersonau enghreifftiol (Cymru) fel eithriad rhag gofynion trwyddedu ar gyfer perfformiad(au) i'w cynnal o fewn ffiniau Cyngor [dinas/sir/bwrdeistref sirol]: amlinelliad o gontract cytundeb 53

Canllawiau cyffredinol: asesu risg plant mewn perfformiadau a gweithgareddau – risgiau a lliniaru 55

Enghraifft o ffurflen perfformiad didrwydded 61

Enghraifft o gydnabyddiaeth o berfformiad didrwydded 63

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r rheolau ynghylch beth sydd ei angen i ddiogelu plant sy'n cymryd rhan mewn dramâu, sioeau, modelu a pherfformiadau a gweithgareddau eraill, boed y plant hynny'n cael eu talu am gymryd rhan ai peidio. Mae'r Rheoliadau, Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 ('y Rheoliadau'), a'r canllawiau, *Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel* (Llywodraeth Cymru, 2015) yn cyflwyno ac esbonio'r rheolau hyn. I bawb sy'n rhan yn y gwaith o gynhyrchu, rheoli a threfnu perfformiadau neu weithgareddau sy'n cynnwys plant, mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol ac enghreifftiau a fydd yn help wrth gynllunio i gadw plant yn ddiogel, ynghyd â manylion rhai o'r materion a allai godi.

Y wers allweddol yw cynnal perthynas waith agos rhwng trefnwyr y digwyddiadau sy'n cynnwys plant – gan gynnwys sefydliadau cymunedol, grwpiau amatur ac ysgolion – a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a pherfformiadau plant. Mae'n bwysig bod trefnwyr ac awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau a gweithgareddau yn cael eu diogelu'n briodol.

Nid yw'r ddogfen hon yn cynnig cyfarwyddiadau i awdurdodau ac ymgeiswyr; yn hytrach, mae'n cynnig senarios a syniadau ynglŷn â sut i ystyried a datrys rhai o'r prif broblemau mewn perthynas â thrwyddedu. Dylai fod yn ddefnyddiol hefyd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y fframwaith trwyddedu ond nad ydynt yn gwneud cais am drwyddedau nac yn cyhoeddi trwyddedau fel arfer, megis rhieni/gofalwyr, athrawon, rheolwyr cwmnïau cynhyrchu neu leoliadau a'r perfformwyr ifanc eu hunain. Mae crynodeb i bobl ifanc ar wefan Llywodraeth Cymru gyda'r prif ddogfennau eraill yn: http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?skip=1&lang=cy

Rydym wedi cynnwys ffurflenni cais enghreifftiol hefyd ar gyfer trwyddedau perfformiad plentyn a Chymeradwyaeth Corff o Bersonau (BOPA). Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd penderfynu sut bydd yn rheoli'r system drwyddedu yn ei ardal yn unol â'r Rheoliadau a chytuno ar eiriad ffurflenni cais trwy ei brosesau ei hun. Mae hyn yn golygu y gall yr union ddull o wneud cais fod yn wahanol mewn gwahanol awdurdodau yng Nghymru.

# 1. Senarios

## Sioe gerdd ysgol

Mae ysgol uwchradd yn trefnu ei sioe gerdd flynyddol. Yn y gorffennol, nid yw’r ysgol wedi bod yn cysylltu â’r cyngor ynglŷn â’r perfformiad ond, eleni, mae wedi cael gwybod bod rheolau newydd ar waith ac y dylai gysylltu â’r Cyngor i sicrhau nad oes unrhyw broblemau. Mae’r ysgol yn ffonio’r swyddog trwyddedu i esbonio beth sy’n cael ei drefnu.

Mae’r swyddog trwyddedu’n dweud wrth yr ysgol, er bod yna reolau newydd nad oes angen trwydded ar gyfer unrhyw berfformiad a drefnir gan ysgol fel eu hysgol nhw. Ond mae yna reolau y mae’n rhaid i’r ysgol eu dilyn, ac mae’r swyddog trwyddedu’n gofyn beth sy’n cael ei drefnu.

Mae’r ysgol yn dweud bod yna dri pherfformiad fel arfer; un ar ddydd Iau, un ar ddydd Gwener ac un ar ddydd Sadwrn. Mae yna berfformwyr o bob rhan o’r ysgol, felly mae’r sioe’n cynnwys dysgwyr o dan 16 oed a dysgwyr 16 oed a hŷn. Ar gyfer pob un o’r diwrnodau hynny, mae’r plant sy’n cymryd rhan yn cyrraedd yr ysgol tua 9.00a.m. i ymarfer drwy’r dydd. Mae’r rhan fwyaf yn gadael ar ddiwedd y diwrnod ysgol am 3.00p.m. ac yn dychwelyd am 6.00p.m., ond mae ychydig ohonynt sy’n byw ymhellach yn aros yn yr ysgol. Mae’r sioe’n dechrau am 7.30p.m. fel arfer ac yn gorffen tua 10.30p.m., er bod problemau technegol wedi arwain at oedi yn y gorffennol. Fel arfer, mae’r plant yn treulio tua hanner awr yn newid a thynnu colur cyn gadael gyda rhieni/gofalwyr neu ffrindiau.

Mae’r swyddog trwyddedu’n gwneud rhai sylwadau.

- Mae’n ymddangos y bydd y plant i gyd yn perfformio neu’n ymarfer am fwy o oriau nag a ganiateir mewn diwrnod – sef pum awr ar gyfer rhai naw oed a hŷn - os byddant yn ymarfer drwy’r dydd ac yn perfformio gyda’r nos. Dylai’r ysgol edrych ar yr amserlen i sicrhau nad yw unrhyw un o dan oedran gadael ysgol yn perfformio neu’n ymarfer am fwy na pum awr.
- Mae’n ymddangos hefyd fod y plant i gyd yn aros yn y ‘lleoliad ymarfer neu berfformio’ am fwy o oriau nag y caniateir. Mae’r rhan fwyaf yn aros am 11 awr ond mae’r rhai nad ydynt yn mynd adref yno am hyd at 14 awr, er mai 9 awr a 30 munud yw’r terfyn. Yn ogystal, mae’r amser cyrraedd yn golygu nad yw’r plant yn cael seibiant o 12 awr dros nos. Byddai cychwyn yn hwyrach – hanner dydd neu’n hwyrach – yn golygu y byddai’r rhan fwyaf o’r plant o fewn y terfyn ac yn lleihau nifer yr oriau a dreulir yn perfformio neu’n ymarfer (gweler uchod). I’r rhai sy’n aros drwy’r dydd, gallai’r ysgol archwilio’r posibilrwydd o gynnig gweithgaredd oddi ar y safle i fynd â’r plant o’r ysgol tra bod y lleill yn mynd adref.
- Mae angen trefniadau goruchwylio a diogelu priodol drwy’r dydd fel nad yw plant yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain na dysgwyr iau yn cael eu gadael yng ngofal dysgwyr hŷn. Efallai y byddai’n ddefnyddiol defnyddio hebryngwyr cofrestredig i weithio gyda staff addysgu i sicrhau digon o oruchwyliaeth.

- Dylai'r ysgol sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r cyfnodau seibiannau lleiaf sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau, er mwyn iddynt gael cyfle i ymlacio a dadflino.
- Byddai'n well pe bai perfformwyr o Flynyddoedd 12 ac 13 yn cael cyfleusterau newid ar wahân i'r rhai a ddefnyddir gan y plant iau. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y gallai'r ysgol ddefnyddio rota fel nad yw'r gwahanol grwpiau oedran yn yr ystafelloedd newid ar yr un pryd.
- Er nad yw'n fater perfformiad, mae'r swyddog trwyddedu'n gofyn i'r ysgol pa bolisïau sydd ganddi ar waith mewn perthynas â rhieni/gofalwyr ac eraill a fydd yn dod i'r sioe gerdd yn tynnu lluniau neu'n gwneud fideos o'r perfformiad. Dylai sicrhau hefyd fod rhieni/gofalwyr y dysgwyr sy'n cymryd rhan wedi rhoi caniatâd i bobl eraill dynnu lluniau ohonynt ac, os nad ydynt wedi rhoi caniatâd, dylai roi mesurau diogelu priodol ar waith.
- Dylai'r ysgol fwrw golwg ar ei pholisïau amddiffyn plant i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn, gan eu diweddaru os nad ydynt yn gwneud hynny.

## Grŵp ieuenctid

Mae grŵp ieuenctid lleol sy'n rhan o sefydliad ieuenctid cenedlaethol mawr yn penderfynu llwyfannu drama sy'n cynnwys ei aelodau, sydd o dan 16 oed i gyd. Mae wedi llogi neuadd leol ac mae'n gobeithio codi digon o arian trwy werthu tocynnau a hufen iâ i dalu am wahanol deithiau i'w aelodau. Mae gan y neuadd 'drwydded ar gyfer perfformiadau' ac mae'r grŵp yn credu bod y drwydded honno'n ddigonol ar gyfer ei ddrama. Dim ond ar ôl siarad â'i swyddfa genedlaethol mae'r grŵp ieuenctid yn sylweddoli, dair wythnos cyn y sioe, bod angen iddo siarad â'r cyngor lleol hefyd. Mae gweithiwr ieuenctid pryderus yn ffonio'r swyddog trwyddedu i weld a all y ddrama fynd yn ei blaen.

Mae'n dweud wrth y swyddog trwyddedu y bydd y ddrama'n cael ei chynnal ar ddwy noson yn y neuadd. Bydd y ddau berfformiad yn gorffen erbyn 10.00p.m. a bydd y plant i gyd wedi gadael y neuadd erbyn 10.30p.m. Mae tua 20 o blant yn cymryd rhan, gyda thua dwsin arall y tu ôl i'r llwyfan ac ym mlaen y tŷ. Mae'r grŵp yn cael ei redeg gan y plant i raddau helaeth, dull y maent wedi'i ddefnyddio wrth gynllunio ac ymarfer y ddrama. Mae rhai o'r plant yn perthyn i'r theatr ieuenctid mewn awdurdod cyfagos hefyd, felly mae ganddynt brofiad diweddar o fod ar y llwyfan.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cadarnhau'r canlynol.

- Er bod y grŵp yn codi tâl mynediad, efallai y gall y grŵp ieuenctid gael un Gymeradwyaeth (Corff o Bersonau) ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan.
- Bod y grŵp ieuenctid wedi bod yn gweithredu ers dros 10 mlynedd, ond nad yw wedi gwneud cais am drwydded na chymeradwyaeth o'r blaen.
- Bod gan y neuadd far a fydd ar agor mewn ystafell arall yn ystod y perfformiadau.
- Bod gan y grŵp bolisi amddiffyn plant sydd wedi'i ddiwygio'n ddiweddar gyda chymorth tîm diogelu'r awdurdod.
- Bod rhai o'r plant wedi bod mewn dwy neu dair drama yn ddiweddar gyda'r theatr ieuenctid, ond nad yw'r grŵp yn gwybod ble na phryd.
- Na fydd unrhyw un o'r plant yn colli ysgol i gymryd rhan.

Gofynnir i'r grŵp ieuenctid ddarparu mwy o wybodaeth am niferoedd ac oedran y plant a fydd yn perfformio a sut bydd yn defnyddio'r neuadd – ble bydd y plant yn ymolchi, yn newid ac yn cael colur, p'run ai oes ardaloedd ar wahân i fechgyn a merched ai peidio, sut bydd y plant yn cael eu cadw allan o'r bar a faint o oedolion fydd yn gofalu am y plant yn ystod yr ymarfer a'r perfformiad. Gofynnir iddo hefyd amlinellu am ba hyd fydd y plant yn ymarfer a pherfformio bob dydd, yn enwedig y rhai o dan naw oed.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cytuno i siarad â'r tîm diogelu am hanes y grŵp ieuenctid a'i gysylltiad blaenorol â'r awdurdod i helpu i benderfynu a fydd yn gymwys i gael Cymeradwyaeth Corff o Bersonau. Mae hefyd yn gofyn i'r grŵp ieuenctid gyfrif sawl gwaith mae ei aelodau wedi perfformio dros y chwe mis diwethaf, boed hynny yn y theatr ieuenctid, yn yr ysgol neu yn rhywle arall – mae'r grŵp wedi cael sicrwydd na fydd hyn yn rhan o'r broses benderfynu ond, yn hytrach, yn rhan o ddyletswydd gofal yr awdurdod tuag at y plant.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cael sicrwydd gan gydweithwyr bod y grŵp ieuenctid yn cael ei reoli'n dda, bod ganddo bolisïau amddiffyn plant cadarn a bod gan ei holl wirfoddolwyr wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r grŵp ieuenctid yn esbonio bod ganddo drefniadau priodol ar waith ar gyfer ardaloedd ymolchi a newid ar wahân ac y bydd 2 oedolyn i bob 10 plentyn gydol y perfformiadau. Ni fydd unrhyw un o'r plant yn perfformio neu'n ymarfer am fwy o oriau nag y caniateir mewn diwrnod ac ni fyddant yn aros yn y neuadd am fwy o oriau nag y caniateir (manylion wedi'u darparu i'r awdurdod). Maent wedi siarad â rheolwyr y neuadd a fydd yn cadw'r ardal berfformio ac ardal y bar ar wahân, gyda staff drws yn rheoli mynediad i'r bar, a bydd staff y bar wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cytuno y gall y grŵp ieuenctid wneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau ac mae'n gweithio trwy'r ffurflen gais gyda'r grŵp. Mae'r swyddog yn credu y dylai'r grŵp ieuenctid ddefnyddio hebryngwyr trwyddedig i sicrhau diogelwch y plant ac yn gwneud hynny'n un o amodau'r gymeradwyaeth, gan roi rhifau cyswllt hebryngwyr trwyddedig yr awdurdod i'r grŵp. Mae'r grŵp yn darparu copïau o'i bolisi amddiffyn plant a thystysgrifau DBS cyfredol ei wirfoddolwyr.

## Teledu

Mae cwmni cynhyrchu bach wedi gwneud cais am drwyddedau ar gyfer amryw o blant 12 i 16 oed. Yn y cais, mae'r cwmni'n dweud y bydd y cynhyrchiad yn cynnwys 'bygythiadau o drais a golygfeydd o berygl', ond nid yw'n ymhelaethu ar hyn nac yn dweud pwy fydd yn cael eu heffeithio ganddynt. Mae'n dweud hefyd y bydd yn cynnwys 'golygfeydd a fydd yn cael eu ffilmio fin nos ac yn ystod y nos', unwaith eto heb ymhelaethu.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cysylltu â'r cwmni cynhyrchu ac yn gofyn am gael siarad â'r person a enwir ar y ceisiadau. Cynorthwyydd y prif weithredwr yw'r person hwn, a fe sy'n ymdrin â holl waith papur y cwmni fel arfer, a gwnaeth yr un peth ar gyfer y trwyddedau hyn. Nid yw'r cynorthwyydd yn gwybod llawer mwy nag oedd yn y ffurflenni cais, ond mae'n dweud bod amserlen y cynhyrchiad yn dangos pythefnos o ffilmio yn y nos mewn lleoliadau ger yr arfordir. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen yn dangos pa actorion fydd eu hangen ar gyfer pob noson.

Yna, mae'r swyddog trwyddedu'n siarad â'r cynhyrchydd ac yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol.

- Pa blant fydd yn ffilmio yn y nos a ble a phryd fydd y ffilmio hyn yn digwydd.
- Beth fydd y 'bygythiadau a'r perygl' a pha blant fydd yn rhan o'r ffilmio hwn.
- Copi o'r sgript fel y mae, yn enwedig yr adrannau sy'n cynnwys y plant.
- Asesiad risg llawn wedi'i gynnal ar gyfer y cynhyrchiad ac a yw'r asesiad hwn wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â ffilmio ger yr arfordir gyda phlant.
- A yw pennaeth/penaethiaid y plant wedi derbyn manylion llawn yr amserlen ai peidio, yn enwedig y diwrnodau y byddant yn gorffen yn hwyr a ffilmio yn y nos.
- Enw'r person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch y rhai ar y set a threfniadau ar gyfer hebryngwyr.

Dywedir wrth y cynhyrchydd bod rhaid i unrhyw gais diwygiedig gael ei wneud yn enw'r person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros les y plant, sef y cynhyrchydd neu'r cyfarwyddwr yn ôl pob tebyg.

Pan mae'r swyddog trwyddedu'n derbyn yr wybodaeth, mae'n amlwg bod y plant i gyd yn wynebu bygythiadau ar y sgrin ac mae'n ymddangos bod dau, un 12 oed ac un 15 oed, yn wynebu risg o foddi mewn amryw o olygfeydd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gweithdrefnau diogelwch priodol ar waith ac na fydd y plant yn wynebu unrhyw risg sylweddol. Er bod y penaethiaid perthnasol wedi ysgrifennu i gytuno y gall y plant gymryd rhan, nid yw hi'n glir a ydynt yn ymwybodol y byddant yn treulio tipyn o amser yn gweithio yn y nos yn ystod y tymor ysgol.

Mae'r swyddog trwyddedu'n cysylltu â'r cynhyrchydd gyda'r ceisiadau canlynol.

- Rhaid diwygio'r cais am drwydded i gynnwys enw'r person sy'n gyfrifol am drefnu rhan y plant yn y cynhyrchiad ac a fydd yn goruchwylio eu diogelwch a'u lles gydol y cynhyrchiad.

- Dylid darparu manylion llawn y ffilmio nos a’r hyn y bydd y plant yn ei wneud, gan sicrhau os ydynt yn gweithio dwy noson yn olynol na fyddant yn gweithio yn y nos eto am saith diwrnod arall.
- Byddai angen cadarnhad hefyd o’r gweithdrefnau diogelwch sydd ar waith a’r cynlluniau ar gyfer llwyfannu’r golygfeydd perthnasol.
- Bydd gan yr hebryngwr yr hawl i ofyn am gopïau o’r sgriptiau diweddaraf ar gyfer golygfeydd y plant i sicrhau na fyddant yn poeni am yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud.
- Os nad oedd y llythyrau gan y penaethiaid yn glir, dylid gofyn i’r penaethiaid gadarnhau eu bod yn fodlon na fydd eu cyfraniad i’r ffilmio yn y nos yn cael effaith andwyol ar iechyd, lles ac addysg y plant.

## ‘Realaeth’

Mae cwmni cynhyrchu annibynnol yn datblygu’r cysyniad o gystadleuaeth rhwng ysgolion yn seiliedig ar weithgareddau chwaraeon ‘anghonfensiynol’ ar y trac, ar y cae ac yn y pwll. Bydd unigolion a thimau o bedair ysgol mewn ardal yn cystadlu, gyda’r ysgol fuddugol yn mynd ymlaen i’r rowndiau terfynol rhanbarthol a chenedlaethol. Mae’r cwmni wedi penderfynu canolbwyntio ar y grŵp oedran 11 i 14 oed yn hytrach na phlant hŷn, felly mae’n ystyried ysgolion uwchradd o bob cwr o’r wlad. Ar ôl dewis ardaloedd tebygol lle byddai ysgolion yn awyddus i gystadlu, mae’r cwmni’n cysylltu ag un o’r awdurdodau lleol hynny yng Nghymru i drafod materion trwyddedu.

Mae ymchwilydd y cwmni’n esbonio’r cynlluniau ar gyfer y rhaglenni.

- Byddai tua wyth cystadleuydd yn cynrychioli pob ysgol, gyda’u hanner yn ferched a hanner yn fechgyn. Mae’n debygol y byddai pedwar yn cymryd rhan mewn digwyddiadau unigol, ac yn ymuno yn y campau tîm hefyd. Byddai campau cymysg yn ogystal â rhai bechgyn yn unig a merched yn unig.
- Byddai cystadleuwyr yn cael eu henwebu gan yr ysgolion ond y cwmni fyddai’n penderfynu pa rai fyddai’n cymryd rhan yn y campau a ddarlledir ar y teledu. Byddai dau neu dri o’r cystadleuwyr o bob ysgol yn cael eu cyfweld ar gamera a byddai ‘straeon bywyd’ rhai ohonynt yn cael eu ffilmio, gyda chydsyniad eu teuluoedd. Ni fyddai pob un o’r rhain yn cael eu dangos, yn dibynnu ar ba ysgol fyddai’n fuddugol a pha mor bell y byddai’r unigolion yn cyrraedd yn y gystadleuaeth.
- Byddai pa bynnag ysgol fyddai’n ennill y rownd leol yn cael ei gwahodd i’r ‘rownd derfynol’ ranbarthol, pan fyddai angen i’r plant dreulio pum diwrnod i ffwrdd mewn canolfan hyfforddi ranbarthol.
- Ni fyddai unrhyw wobrau am gymryd rhan, dim ond tlws i’r tîm buddugol. Byddai’r ysgol fyddai’n ennill y gystadleuaeth genedlaethol yn derbyn nwyddau chwaraeon fel gwobr.

Mae’r prif broblemau a godwyd gan yr awdurdod lleol fel a ganlyn.

- Os yw plant am gael eu cyfarwyddo – neu os yw cyfweliadau am gael eu sgriptio - byddai angen i’r cwmni cynhyrchu wneud cais am drwyddedau ar gyfer yr elfennau hynny o’r rhaglen. Mae’r awdurdod am drafod gyda’r cwmni sut byddai hyn yn gweithio’n ymarferol, gan y gallai fod yn bosibl mai dim ond ychydig o unigolion fyddai’n cael eu cyfweld ac felly angen trwydded.
- Mae angen trafodaeth bellach ynglŷn â sut mae’r cwmni’n bwriadu cyfweld a chyflwyno adroddiadau am y cystadleuwyr. Er na all warantu pwy fyddai’n cyrraedd y rowndiau terfynol, dylai’r cwmni gyflwyno’r unigolion dan sylw o bob ysgol i’r hebryngwyr a gweddill y criw a fyddai’n eu cefnogi oddi cartref. Bydd hyn yn helpu’r plant i deimlo’n fwy cyfforddus pe bai rhaid iddynt dreulio amser oddi cartref.
- Bydd angen asesiad risg eang, yn rhoi sylw i faterion megis addasrwydd y lleoliadau chwaraeon a ddefnyddir ac effaith y ffilmio a’r cyfweliadau, ac unrhyw faterion sy’n effeithio ar iechyd y plant sy’n cymryd rhan.

- Bydd angen i'r amserlen ffilmio reoli amser y plant i leihau'r oriau y byddent yn eu treulio ar neu yng nghyffiniau'r cae chwaraeon. Bydd yn rhaid neilltuo amser i dwymo i fyny a dod at eu hunain wedyn.
- Bydd angen i drefniadau ar gyfer plant a fydd yn cyrraedd y rowndiau nesaf fod yn glir fel bod y llety, lleoliad a'r trefniadau o ran hebryngwyr yn diwallu anghenion y plant. Mae'n bosibl y bydd angen trwydded ar yr holl blant sy'n treulio amser oddi cartref os yw'n golygu amser allan o'r ysgol, ond gellid datrys hyn unwaith i'r rownd gyntaf gael ei chwblhau. Yn yr achos hwn, gellid rhoi trwydded ar yr amod bod y swyddog trwyddedu'n cael ei hysbysu o ddyddiadau pellach cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i blant sy'n cyrraedd y rowndiau nesaf dderbyn addysg am y cyfnod y byddan nhw'n ei dreulio oddi cartref, oni bai bod y digwyddiad yn cael ei ffilmio yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd angen i'r pennaeth/penaethiaid gael gwybod beth sy'n digwydd a rhoi caniatâd i'r plant gymryd rhan.
- Yn ogystal, mae'r awdurdod yn gofyn am fanylion yr ardaloedd awdurdod lleol eraill lle mae'r cwmni'n bwriadu ffilmio fel y gall weithio gydag awdurdodau eraill i ddatblygu dull cyson o drwyddedu.

Mae'r awdurdod yn cynnal ei ymchwil ei hun i gefndir y cwmni cyn iddo ddarparu'r wybodaeth a gwneud y newidiadau y gofynnwyd amdanynt.

## 2. Materion allweddol

### Asesu risg

Mae asesiadau risg yn allweddol i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, ac nid y plant yn unig, yn ddiogel tra'u bod yn cymryd rhan. Rhaid iddynt ystyried yr holl ffactorau a allai effeithio ar iechyd, diogelwch a lles plentyn mewn unrhyw berfformiad neu weithgaredd, ac nid dim ond y rhai lle mae'r plant angen trwydded. Felly, bydd angen i gynyrchiadau ysgol, y rhai lle mae'r plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod, neu'r rhai a gwmpesir gan Gymeradwyaeth Corff o Bersonau, gynnal asesiadau sy'n briodol i'w sefyllfa.

Mae'n debygol y bydd cynhyrchiad theatr mawr neu gwmni teledu mawr angen asesiadau risg mwy eang na digwyddiad bach a gynhelir gan sefydliad gwirfoddol. Ond bydd angen asesiad sy'n adlewyrchu'r materion a all beri risg i'r plentyn ac ymateb priodol i liniaru'r risg honno. Ni fydd hyn yn gyfyngedig i'r amgylchedd ffisegol – megis peryglon baglu mewn theatr neu'r risg o anaf mewn digwyddiad chwaraeon – rhaid iddo gwmpasu materion megis cymorth i'r plentyn, pwysau a phroblemau emosiynol a materion amddiffyn a diogelu plant.

Efallai y bydd plant ifanc iawn yn wynebu problemau penodol o ganlyniad i bwysau gwaith neu gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni/gofalwyr, er enghraifft, a gallai pethau fel trafnidiaeth nad yw ar gael ar amser waethygu'r sefyllfa. Efallai y bydd plant hŷn yn teimlo dan bwysau i ymddwyn fel oedolion, o gael eu gadael i ofalu am blant iau neu oherwydd y disgwylir iddynt gyflawni rolau sy'n rhagdybio profiad oedolyn o'r byd. Yn ogystal, efallai y bydd tensiwn rhwng gwahanol grwpiau oedran ac ymddygiad amhriodol, megis bwlio neu sylwadau niweidiol, rhwng plant neu gydag eraill.

Felly, mae angen i asesiad risg effeithiol roi sylw i bob math o faterion amrywiol, gan gynnwys y canlynol.

- Anaf – peryglon amgylcheddol, o faglu dros offer a disgyn o uchder, i effaith y tywydd ar y plant wrth ffilmio ar leoliad.
- Salwch – dod i gysylltiad â deunyddiau ac amgylcheddau peryglus a heintiadau posibl, yn ogystal â diffyg hylif, salwch sydyn a blinder.
- Niwed seicolegol – wynebu ymddygiad a phrofiadau niweidiol, fel o ganlyniad i'r sgript neu gan blant eraill ac aelodau'r cast, y gynulleidfa ac eraill.
- Diffyg rheolaeth ddigonol gan reolwyr fel nad yw'r amodau a osodwyd ar y drwydded neu'r gymeradwyaeth yn cael eu gorfodi.
- Materion logistaidd – mae angen rhoi digon o le er mwyn i aelodau'r gynulleidfa a pherfformwyr fod ar wahân drwy'r adeg.
- Prinder staff cymwys a hebryngwyr.
- Methu â sicrhau cydsyniad dilys.
- Diffyg goruchwyliaeth.
- Trefniadau trafnidiaeth anaddas.
- Gormod o ofynion perfformio – o ystyried nodweddion unigol perfformwyr, fel bod pwysau'n cael ei roi ar blant i wneud mwy a mwy o waith pan ddylent fod yn cael mwy o amser i orffwys.

- Darpariaeth annigonol ar gyfer argyfwng.
- Cyswllt digroeso – cyswllt corfforol neu gyswllt ymosodol/camdriniol arall.
- Yn ogystal ag ystyried y risgiau i'r plentyn yn ystod cyfnod y perfformiad, gweithgaredd neu ymarfer, dylai'r asesiad risg hefyd gynnwys ffactorau a allai effeithio ar les y plentyn ar ôl iddo gymryd rhan yn y perfformiad neu weithgaredd, o ganlyniad iddo.
- Dylai'r asesiad risg nodi'r camau arfaethedig a fydd yn lliniaru neu ddileu unrhyw risgiau sylweddol. Mae'n arfer gorau cynnwys gwybodaeth iechyd a diogelwch arall mwy cyffredinol yn eich asesiad risg, e.e. trefniadau safle, cyfleusterau lles, trefniadau hebrwng a chyfleusterau cymorth cyntaf.

Dylai swyddog trwyddedu'r awdurdod lleol ofyn am gael gweld asesiad risg cyn i unrhyw drwydded neu gymeradwyaeth gael ei rhoi. Ar ôl i'r asesiad risg gael ei gymeradwyo, mae angen iddo gael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd – mae newidiadau i'r cast a'r staff, newidiadau i'r sgript a hyd yn oed cyfnod estynedig o dywydd braf (neu wael) yn gallu cael effaith ar y risgiau sy'n wynebu'r plant.

Dylai'r dull asesu risg adlewyrchu lefel y risg a ragwelir. Y rhai sy'n gyfrifol am y perfformiad neu'r gweithgaredd ddylai bennu lefel y manylder a'r tebygolrwydd y mae eu hasesiad yn eu hystyried, ond mae'n bwysig nad yw'n ddim mwy nag ymarfer 'ticio bocs' cyflym sy'n methu rhoi sylw i'r amgylchiadau penodol dan sylw.

Dechreuwch gydag unrhyw ddogfennau cyfredol – megis asesiadau risg y lleoliad a'ch polisi amddiffyn plant eich hun – ac adeiladu arnynt. Meddyliwch am y pethau nad ydynt yn cael eu sylw yn y dogfennau cyfredol, pa anghenion penodol sydd gan y plant, a sut byddwch chi'n sicrhau eu bod yn cael eu goruchwylio'n iawn bob amser. Mewn rhai achosion, bydd y sgript yn cynnig materion pellach, yn enwedig os yw'n ymdrin â 'themâu oedolion' neu salwch a allai fod wedi effeithio ar deuluoedd y plant. Yna, byddai angen i'r asesiad risg fynd i'r afael â sut i osgoi peri gofid iddyn nhw a sut i dawelu meddwl rhieni/gofalwyr na fydd y deunydd yn cael effaith andwyol ar eu plant.

Does dim modd dileu pob risg. Bydd gan bob unigolyn a sefydliad lefel o risg y maent yn barod i'w derbyn. Ond dylai risgiau sy'n effeithio ar blant gael eu lliniaru neu eu dileu gymaint â phosibl, a bydd angen i'r asesiad ddweud sut y bydd yr ymgeisydd yn rheoli'r risgiau sy'n weddill.

Os yw swyddog trwyddedu'n bryderus nad yw asesiad risg yn ddigon cadarn, dylai'r swyddog ofyn i'r cwmni am ddatganiadau penodol ar sut y bwriadant ymarfer eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant. Gall swyddogion rannu 'templedi arferion da' hefyd i ddangos lefel y manylder a ddisgwylir, fel y canlynol.

> Wrth gyrraedd, bydd rheolwr y lleoliad yn cynnal asesiad ffisegol o'r amgylchedd. Os oes unrhyw risgiau newydd yn codi ar unrhyw adeg, byddant yn gwerthuso'r risgiau ac yn diweddaru'r asesiad risg. Os pennir bod unrhyw risgiau yn rhy ddifrifol, bydd cynllun gwahanol yn cael ei lunio. Bydd diogelwch y plant yn cael blaenoriaeth dros ffilmio bob amser.

Yn ogystal â sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn bresennol drwy'r amser, rydym wedi cyflogi hebryngwr proffesiynol y gellir ymddiried ynddo/ynddi i fonitro amseroedd perfformio ac osgoi unrhyw risg o leihau'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i ddiogelu'r plentyn. Bydd plant yn cael eu briffio'n glir cyn pob gweithgaredd, ac ni fyddant yn cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os nad ydynt yn hapus i wneud hynny. Byddant yn cael cyfarwyddyd i ddweud wrth y cyfarwyddwr, eu rhieni/gofalwyr neu hebryngwr os nad ydynt yn hapus gydag unrhyw beth, a bydd y ffilmio yn dod i ben yn syth os yw plentyn mewn gofid. Byddwn yn parhau yn ymwybodol y bydd rhai plant yn cael trafferth gwrthod ceisiadau gan griwiau teledu a byddwn yn ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr/hebryngwyr a fydd hefyd yn monitro lles y plentyn. Mae holl aelodau'r tîm cynhyrchu wedi bod yn destun archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac wedi cwblhau cwrs ar weithio gyda phlant. Mae gan y tîm brofiad o weithio gyda phlant, ac mae'r rhan fwyaf o reolwyr cynhyrchu wedi gweithio ar eu sioeau eraill gyda phlant yn y gorffennol. Ni fydd plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gydag unrhyw aelod o'r criw, ac mae'r criw wedi'u briffio ar hyn i sicrhau na fydd yn digwydd.

Gallai swyddogion trwyddedig ofyn am gofnodion dyddiol (cyhyd â'i fod o fewn chwe mis i'r perfformiad) i wirio bod y rheoliadau wedi'u bodloni a bod trwyddedau agored yn unol â'r Rheoliadau.

Os oes angen Cymeradwyaeth Corff o Bersonau, mae'n arfer gorau cynnwys enwau a manylion y plant, lle'n bosibl, cyn perfformiad. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd cydnabyddir nad yw'n bosibl darparu'r lefel hon o fanylder tan yn agosach i'r perfformiad neu hyd yn oed tan ar ôl y perfformiad.

## Cydweithio

Mae'n amlwg y byddai'n well i bawb, gan gynnwys y plant, pe bai'r broses drwyddedu'n gweithio mor esmwyth (ac mor gyflym) â phosibl. Mae hynny'n fwy tebygol o ddigwydd pan fo'r ymgeisydd a'r awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd ac yn datblygu perthynas waith effeithiol. Mae angen cyfathrebu da, meddwl agored ac, yn anad dim, dim digwyddiadau annisgwyl.

Mae yna rai cwmnïau a grwpiau sy'n gwneud cais am drwyddedau'n rheolaidd, a dylent drafod gyda'r awdurdod lleol beth sydd ar y gweill, pa gyfyngiadau sy'n bodoli a'r ffordd orau o ddiwallu anghenion ei gilydd. Gallai hyn olygu ymweld â'r cwmni i drafod gofynion trwyddedu, esbonio'r broses arolygu a ddefnyddir a datblygu cysylltiadau â gwahanol lefelau yn y cwmni i hwyluso trafodaeth ehangach. Er enghraifft, pan symudodd cynhyrchydd newydd i ardal un awdurdod lleol, dyma a ddigwyddodd.

> Dywedodd cynrychiolwyr 'Fiction factory' wrthym fod y cwmni'n mynd i agor stiwdio yng Nghaerffili, gyda'r nod o ddefnyddio dysgwyr o'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg leol fel man cychwyn.
>
> Fe gwrddon ni â nhw i drafod rhai o'u gofynion o ran niferoedd ac i drafod eu polisi diogelu a llunio amserlen ar gyfer derbyn y ceisiadau llawn; ar y pryd, roeddent yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio tua 50 a mwy o ddisgyblion ddwywaith y flwyddyn. Roedd yr ysgol yn defnyddio'r stiwdio fel rhan o'i hastudiaethau drama hefyd a oedd yn ehangu profiadau'r dysgwyr.
>
> Teimlwyd ei fod yn ymarfer gwerthfawr gan ei fod yn cyfyngu ar nifer yr ymholiadau sy'n anorfod yn codi o dan y system ymgeisio bresennol ac yn caniatáu ar gyfer proses ddi-dor ac effeithlon.

Dylai sianeli cyfathrebu fod ar agor bob amser – dylai cynhyrchwyr a threfnwyr geisio rhybuddio swyddogion trwyddedu os ydynt yn disgwyl gwneud nifer fawr o geisiadau am drwyddedau, yn enwedig os byddant yn gwneud hynny ar fyr rybudd, a dylai awdurdodau roi gwybod i ddarpar ymgeiswyr os oes yna adegau penodol yn ystod y flwyddyn pan fydd cymeradwyaeth yn debygol o gymryd mwy o amser oherwydd niferoedd uwch o geisiadau.

Yn ogystal, os gwneir cais am drwydded ar gyfer yr un plentyn dro ar ôl tro, mae'n gwneud synnwyr i'r awdurdod gadw rhywfaint o wybodaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer pob cais ac a fyddai'n cael ei chadarnhau gan yr ymgeisydd. Dylai ffotograffau gael eu diweddaru bob chwe mis ond dylai fod modd hwyluso ceisiadau am drwyddedau ar gyfer plant sydd angen trwydded dro ar ôl tro trwy gydweithio rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdod.

Mae arfer da mewn perthynas â chydweithio yn ymestyn hefyd i deuluoedd y plant sy’n cymryd rhan, fel yn yr enghraifft ganlynol.

> Ar ôl derbyn cais am drwydded perfformiad gan gwmni ffilm bach ac ar ôl darllen y cais a natur rhan y plentyn (14 oed), penderfynodd y swyddog trwyddedu ofyn am gael gweld y sgript. Gwnaeth awdurdod arall yr un fath gan fod y ddau swyddog trwyddedu wedi cysylltu â’i gilydd gyda phryderon ynglŷn â’r rhan fyddai gan y plentyn. Ar ôl derbyn y sgript, roedd hi’n amlwg bod y rhan yn cynnwys tynnu gŵn nos yn rhannol, smygu sigaréts a llawer o regi.
>
> Cysylltodd y ddau swyddog trwyddedu â’r cwmni cynhyrchu a dywedwyd wrthynt na fyddai’r plentyn ar y set i weld unrhyw un o’r golygfeydd yr oeddent yn poeni amdanynt. Yn ogystal, penderfynodd yr awdurdod cyntaf gysylltu â rhiant y plentyn i fynegi ei bryder ac i ofyn a oeddent wedi gweld copi o’r sgript. Nid oedd y rhiant wedi meddwl am ofyn am gopi ond, ar ôl y sgwrs, gofynnodd am gael gweld y sgript ac yna gofynnodd am i newidiadau gael eu gwneud. Ar ôl trafodaethau hir gyda’r cwmni cynhyrchu a’r rhieni, gwnaed ychydig o newidiadau i sicrhau na fyddai’r plentyn yn gorfod gweld unrhyw ddeunydd anaddas ac y byddai’r rhiant yn bresennol bob amser. Erbyn hynny, roedd y swyddog trwyddedu’n fodlon bod y plentyn yn cael ei ddiogelu’n addas, ac roedd yn teimlo y gallai gyhoeddi’r drwydded.

Mae gweithio gydag awdurdodau lleol eraill yn rhan allweddol o sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan swyddogion trwyddedu i benderfynu ar gais. Mae hyn yn cynnwys meysydd megis gwirio hebryngwyr cofrestredig a restrir ar geisiadau am drwydded a hysbysu ei gilydd am berfformiadau sy’n cael eu cynnal yn eu hardaloedd. Mae angen iddynt weithio gyda’u hysgolion a’u hadrannau addysg eu hunain hefyd, nid yn unig i gael yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau ond hefyd i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o’r gofynion y mae’n rhaid iddynt eu bodloni – efallai y bydd ysgolion yn credu eu bod nhw wedi’u heithrio’n llwyr o’r broses drwyddedu ond, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan eraill, mae angen iddynt weithio gyda’r swyddog trwyddedu i sicrhau eu bod yn gweithio o fewn y gyfraith.

> Ym mis Mehefin 2015, cynhaliwyd Parêd Cyflwyno’r Faner yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, gyda llawer o blant o bob cwr o Gymru’n cymryd rhan. Nid oedd llawer o’r perfformwyr na’u hathrawon dawns/côr yn sylweddoli bod angen trwydded ar y plant gan y byddent yn colli diwrnod o ysgol. Trwy gydweithio â Chaerdydd ac awdurdodau eraill, a thrwy lawer o negeseuon e-bost a galwadau ffôn i’r cwmni cynhyrchu ac eraill, cafodd y plant eu trwyddedu’n llwyddiannus fel y gallent gymryd rhan mewn digwyddiad pwysig a chofiadwy. Cafodd swyddogion ddigon o amser hefyd i fwrw golwg ar y ceisiadau a’u cyhoeddi’n unol â hynny.

Mae yna derfynau i hyblygrwydd, fel mae un awdurdod yn esbonio.

> Rhoddwyd trwyddedau agored i ymgeisydd ar yr amod y byddai'r cwmni cynhyrchu yn rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau sy'n derbyn ar ba ddyddiadau ac amseroedd y byddai'r plant yn perfformio. Nid yw hyn wedi digwydd ym mhob achos ac mae ymgeiswyr wedi cael gwybod y gallai hyn olygu na fydd ceisiadau am drwyddedau agored yn cael eu derbyn yn y dyfodol. Mewn o leiaf un achos, rhoddodd y swyddog trwyddedu drwydded am yr ail waith eto, ond ar y ddealltwriaeth y byddai'n cael gwybod y dyddiadau perfformio, er ei fod yn teimlo na ddylai fod wedi gwneud hynny – ac anwybyddodd yr ymgeisydd y cais am wybodaeth am y dyddiadau perfformio unwaith eto. Ni fydd yr awdurdod yn rhoi trydedd trwydded agored i'r cwmni hwn.

## Y rheol pedwar diwrnod

Nid yw'r Rheoliadau Newydd yn effeithio ar yr eithriadau yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 1963. Mae geiriad y rhan berthnasol yn adran 37 fel a ganlyn:

> '(3) A licence under this section shall not be required for any child to take part in a performance to which subsection (2) of this section applies if no payment in respect of his taking part in the performance, other than for defraying expenses, is made to him or to another person, and—
>
> > (a) in the six months preceding the performance he has not taken part in other performances to which subsection (2) of this section applies on more than three days'.

Bydd yr **holl** berfformiadau y mae'r plentyn wedi cymryd rhan ynddynt yn y chwe mis blaenorol yn cyfrif at ddibenion y rheol pedwar diwrnod, hyd yn oed perfformiadau nad oedd angen trwydded ar eu cyfer, fel y rhai a drefnir gan fathau penodol o ysgolion neu a drefnir dan Gymeradwyaeth (Corff o Bersonau).

Ni all yr eithriad gael ei ddefnyddio ar gyfer plant sy'n cyflawni gweithgareddau chwaraeon neu fodelu. Yn ogystal, dywed y Ddeddf yn glir na ellir defnyddio'r rheol pan fo plentyn yn cael ei dalu (neu pan fo taliad yn cael ei wneud ar ei ran). Yn y naill achos a'r llall, bydd angen trwydded ar y plentyn i gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd. Ni ellir gweithredu'r rheol ychwaith os yw'n ofynnol i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol.

**Gellir crynhoi'r rheol pedwar diwrnod drwy ddweud mai'r pumed diwrnod o weithio fyddai'n dileu'r hawl i ddefnyddio'r rheol pedwar diwrnod.**

Fel arfer, dim ond os bydd yr unigolyn neu'r sefydliad yn trafod y sefyllfa hon gyda nhw y bydd yr awdurdod yn gwybod am y cynlluniau, sy'n arfer gorau. Dylai'r unigolyn neu sefydliad ysgrifennu at yr awdurdod yn egluro eu bod yn defnyddio'r rheol pedwar diwrnod. Y safon dderbyniol yw bod yna '**resymau rhesymol**' dros ddefnyddio'r rheol os yw'r rhiant/gofalwr yn dweud, hyd y gŵyr, nad yw'r plentyn wedi gweithio 'pumed diwrnod'.

Dylai fod gan y person sy'n gyfrifol am y perfformiad 'seiliau rhesymol' i gredu nad yw'r plentyn wedi perfformio ar fwy na thri diwrnod yn y chwe mis diwethaf ac felly ei fod yn gymwys i'w eithrio. Yr arfer gorau fydd cael rhiant/gofalwr y plentyn i gadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

Dylai'r person sy'n gyfrifol am y perfformiad gynghori'r rhiant/gofalwr o'r canlynol wrth gyfrif y diwrnodau perfformio:

- Dramâu ysgol a pherfformiadau lle mae pobl wedi gorfod talu i gael mynediad.
- Unrhyw berfformiadau lle rhoddwyd Cymeradwyaeth Corff o Bersonau ar gyfer rhai neu bob un o'r plant, gan gynnwys y plentyn hwn.
- Unrhyw ran mewn perfformiadau gan grwpiau proffesiynol, amatur neu gymunedol mewn rôl benodol neu fel rhan o'r cast neu'r corws.

- Unrhyw berfformiadau y cafodd y plentyn ei dalu ar eu cyfer neu yr oedd ganddo drwydded ar ei gyfer.

Mae hyn yn cynnwys perfformiadau mewn digwyddiadau gwahanol i'r un y mae'r plentyn ar fin cymryd rhan ynddo – felly, er enghraifft, mae angen i blentyn sydd ar fin cymryd rhan mewn drama gyfrif sawl gwaith y perfformiodd mewn sioe ddawns dri mis cyn hynny. Mae'n bwysig cadw cofnodion manwl yn yr achosion hyn ac mae angen i rieni/gofalwyr fod yn agored ynglŷn â faint mae eu plant wedi'i wneud.

Er y rheol pedwar diwrnod, mae'n parhau yn arfer gorau i awdurdodau lleol gael eu hysbysu o berfformiad. Gweler yr atodiadau am ffurflenni templed i'w defnyddio ar gyfer perfformiadau.

## Llety a theithio

Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo unrhyw lety lle bydd plentyn yn byw oddi cartref er mwyn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd i sicrhau bod y lle'n addas i'r plentyn hwnnw. Yn ogystal â chymeradwyo llety, dylai'r awdurdod trwyddedu sicrhau bod trefniadau trafnidiaeth addas ar waith a bod darpariaeth briodol wedi'i gwneud ar gyfer prydau bwyd, a bod unrhyw amodau eraill y gall fod eu hangen i ddiogelu iechyd a lles y plentyn wedi'u nodi.

Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod y llety'n gyfforddus ac yn ddiogel i blant a bod hebryngwyr addas gyda nhw os nad yw eu rhieni/gofalwyr yn bresennol. Er na fydd angen gwirio'r llety'n ffisegol o reidrwydd, efallai y bydd angen i'r awdurdod trwyddedu wirio bod y llety'n addas gyda'r awdurdod derbyn os nad yw'r perfformiad yn cael ei gynnal yn ei ardal.

Dyma enghraifft.

> Mae bwriad trefnu i ddau blentyn aros mewn gwesty gadwyn adnabyddus, fawr. Mae'r ystafelloedd mae'r plant yn aros ynddynt ar yr ail lawr, yn ddigon pell oddi wrth y dderbynfa, y barrau a'r bwyty, ac mae ganddynt ddrysau cydgysylltiol ar gyfer yr hebryngwr a fydd yn aros gyda nhw. Mae'r theatr y bydd y plant yn perfformio ynddi o fewn pellter cerdded i'r gwesty, a'r bwriad yw y bydd yr hebryngwr yn cerdded gyda'r plant i'r theatr gan gyrraedd yno am 1.30p.m. Mae tacsi wedi'i drefnu i gasglu'r plant a'u hebryngwr a'u hebrwng yn ôl i'r gwesty am 10.30p.m.

Gan fod y gadwyn yn adnabyddus ac yn cael ei hystyried yn addas, mae'n annhebygol y bydd angen archwiliad. Mae trefniadau teithio wedi'u hystyried yn llawn, ac yn briodol.

Dyma enghraifft arall.

> Mae cwmni teledu'n bwriadu trefnu llety ar gyfer chwe phlentyn sy'n ffilmio ynghanol Llundain. Mae wedi awgrymu llety mewn tŷ mawr 40 munud o ganol Llundain. Bydd y rhieni'n aros gyda'u plant, ynghyd ag aelodau o'r criw.

Yn y sefyllfa hon, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i drefniadau teithio ac amseroedd galw oherwydd y pellter y bydd rhaid i'r plant deithio, ynghyd â thagfeydd a'r oedi tebygol sy'n gysylltiedig â theithio ynghanol Llundain. Gan y bydd yr awdurdod yn ystyried amser teithio'r plant bob dydd, efallai yr ystyrir bod y siwrnai hon yn ychwanegu gormod at ddiwrnod y plant ac mae'n bosib y gofynnir i'r cwmni ystyried dod o hyd i lety sy'n nes at ganol y ddinas.

Mae ffactorau eraill i'w hystyried yn cynnwys y trefniadau ar gyfer y criw ac ar gyfer y plant a'u rhieni, gan fod angen darparu amser priodol i bawb ymlacio mewn ardaloedd ar wahân. Bydd y criw angen amser heb y plant fel y gallant ymlacio fel oedolion. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r criw ymlacio mewn ffyrdd sy'n briodol iddynt hwy, ac yn yr un modd gall plant a'u rhieni ymlacio mewn ffyrdd sy'n briodol iddynt hwy hefyd.

Bydd angen cynnal archwiliad i sicrhau bod y llety'n addas. Os nad yw'n addas, gall yr awdurdod ofyn i'r cwmni ddod o hyd i lety ar wahân i'r cast a'r criw gan nad oes ffordd briodol o ddiogelu lles y plant heb wneud iddynt aros mewn gwahanol lefydd. Bydd angen cynnal trafodaeth gyda staff gweithredol y cwmni cynhyrchu, y rhieni, y plant a'r criw fel bod pawb yn deall a chytuno i'r trefniadau.

Yn ogystal, bydd angen i drefniadau teithio, amseroedd cychwyn a gorffen a nifer y diwrnodau y bydd rhaid i'r plant weithio mewn wythnos gael eu hystyried, eu trafod a'u cytuno gyda staff gweithredol y cwmni cynhyrchu, o ystyried faint o amser y bydd y plant yn ei dreulio yn teithio rhwng y llety a lleoliad y perfformiad.

## Seibiannau a therfynau amser

Mae’r Rheoliadau a’r canllawiau yn nodi uchafswm y troeon y gall plant gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, yr oriau y gallant eu treulio yn y lleoliad a’r amseroedd cynharaf a hwyraf y gallant fod yn lleoliad y perfformiad neu’r gweithgaredd a’r seibiannau gofynnol yn ystod y dydd a rhwng perfformiadau.

Ar y cyfan, nid yw’n dderbyniol i gais am drwydded nodi y bydd y plentyn yn mynychu a pherfformio ‘o fewn y terfynau statudol’. Dylai cais fod yn glir ynglŷn â’r oriau y disgwylir i blentyn weithio a’r amseroedd y disgwylir iddynt fod ar gael. Yna, bydd yr awdurdod trwyddedu’n gallu ystyried a yw’r oriau a gynigir yn briodol i’r plentyn ac addasu telerau’r drwydded os bydd angen. Gan fod rhaid i’r awdurdod ystyried yr effaith gyffredinol ar iechyd, addysg a lles y plentyn, efallai y bydd yn teimlo, er enghraifft, y byddai diwrnodau byrrach yn well i’r plentyn hwnnw i sicrhau nad yw’n effeithio ar ei les.

Mae awdurdodau yn gallu ystyried effaith yr amser a dreulir yn teithio i leoliad y perfformiad ac oddi yno hefyd. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol os yw’r plentyn yn gymharol ifanc neu’n amhrofiadol neu os byddai teithio’n golygu y byddai’n rhaid i’r plentyn adael ei gartref cyn yr amser cychwyn cynharaf (7.00p.m.) neu gyrraedd adref ar ôl yr amser gorffen hwyraf (10.00p.m. i blant iau na naw oed ac 11.00p.m. i blant naw oed a hŷn). Yn yr achos hwn, efallai y bydd yr awdurdod am newid yr amseroedd cychwyn a gorffen ar gyfer y plentyn fel na fydd ei ddiwrnod yn rhy hir.

Os bydd plant yn perfformio ar ôl yr amser gorffen hwyraf, gellir cytuno i hyn yn ôl disgresiwn yr hebryngwr hyd at awr ar ôl yr amser hwyraf. Dim ond o dan amgylchiadau na ellir eu rhagweld sydd y tu allan i reolaeth y deiliad trwydded y dylai hyn ddigwydd, a dylid rhoi gwybod i’r awdurdod drannoeth. Os bydd cwmni cynhyrchu eisiau i blentyn weithio yn y nos, rhaid esbonio hynny yn y cais am drwydded ac mae’n amodol ar gyfyngiadau, gan gynnwys dwy noson yn olynol a seibiannau hirach i’r plentyn.

## Hebryngwyr

Hebryngwr yw'r person allweddol y mae'r plentyn yn disgwyl cael arweiniad, diogelwch, esboniad a chymorth ganddo. Rhaid i bob hebryngwr ymgysylltu â'r person sy'n gyfrifol am drefnu neu gynhyrchu'r gweithgaredd neu'r perfformiad y mae plentyn yn rhan ohono, oni bai bod y plentyn yng ngofal ei riant/gofalwr neu athro a fyddai'n darparu addysg y plentyn fel arfer. Mewn llawer o achosion, yn enwedig mewn perfformiadau theatr proffesiynol neu mewn gwaith teledu/ffilm, bydd hebryngwyr trwyddedig yn gweithio ochr yn ochr â rhieni/gofalwyr ac athrawon gan fod ganddynt wybodaeth arbenigol am y Rheoliadau.

Blaenoriaeth gyntaf hebryngwr yw'r plentyn. Rhaid iddynt allu trafod gyda'r cwmni cynhyrchu/trefnydd a gallu dweud na os yw'n debygol y bydd yr hyn y gofynnir i'r plentyn ei wneud yn effeithio ar iechyd, lles neu addysg y plentyn. O dan amgylchiadau lle mae'r hebryngwr yn cael ei gyflogi gan y cwmni neu'r trefnydd mewn rôl arall (megis rhedwr), ni ddylai gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill tra'i fod yn gweithredu fel hebryngwr.

**Cymeradwyo hebryngwyr**
Rhaid i awdurdodau lleol gymeradwyo pob hebryngwr sy'n gweithio ar berfformiad neu weithgaredd, boed yr hebryngwyr yn cael eu talu ai peidio, pan fyddant yn gweithredu fel hebryngwr ar gyfer plentyn neu blant. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried amryw o ffactorau wrth gymeradwyo person fel hebryngwr. Rhaid iddo sicrhau bod gan hebryngwr ofal a rheolaeth briodol dros y plentyn a'i fod yn diogelu, cefnogi a hyrwyddo lles y plentyn tra'i fod yn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd neu tra bod y plentyn yn byw oddi cartref.

Mae prosesau awdurdodau lleol ar gyfer cymeradwyo hebryngwyr yn amrywio ond, wrth ystyried addasrwydd hebryngwyr, fe'ch cynghorir i wneud y canlynol fel mater o arfer gorau.

- Gwiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Dylid cynnal cyfweliad i asesu addasrwydd a chymhwysedd hebryngwr ar gyfer y rôl, a fyddai hefyd yn galluogi'r awdurdod lleol i esbonio'r hyn a ddisgwylir gan hebryngwr a gymeradwyir gan awdurdod lleol. Gall y cyfweliad hwn gael ei gynnal wyneb yn wyneb neu drwy raglen hyfforddi strwythuredig, er y byddai defnyddio'r naill asesiad a'r llall yn fwy cadarn.
- Dylid cael dau eirda y gellir eu gwirio gan bobl nad ydynt yn adnabod yr ymgeisydd yn unig trwy'r sefydliad y mae am ddod yn hebryngwr ar ei gyfer.
- Dylid darparu hyfforddiant amddiffyn plant i ymgeiswyr newydd a hyfforddiant diweddaru i hebryngwyr presennol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am gategorïau o gam-drin, arwyddion a symptomau cam-drin, beth i'w wneud os bydd rhywun yn amau neu'n rhoi gwybod i chi bod rhywun yn cael ei gam-drin a phwy i'w hysbysu.

Fel arfer gorau, dylai awdurdodau lleol rannu gwybodaeth am hebryngwyr sydd wedi'u gwrthod gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Yng Nghymru, mae'n orfodol i hebryngwr newydd dderbyn hyfforddiant ar ei rôl a'i gyfrifoldebau cyfreithiol. Dylid cynnal yr hyfforddiant hwn cyn i hebryngwr gael ei drwyddedu, ond os yw'r awdurdod yn penderfynu trwyddedu hebryngwr cyn yr hyfforddiant, bydd yn ofynnol iddo dderbyn hyfforddiant o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi.

Gallai hyfforddiant gael ei ddarparu trwy sesiynau hyfforddi a reolir gan awdurdod lleol neu drwy ddarparu llawlyfrau, dogfennau canllaw, DVDs neu becynnau hyfforddi ar-lein.

Gallai hyfforddiant ychwanegol i hebryngwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau proffesiynol megis theatrau proffesiynol, cynyrchiadau ffilm neu deledu yn cwmpasu:

- technegau cynhyrchu a gofynion cynyrchiadau theatr, ffilm neu deledu mawr 'ar leoliad'
- elfennau allweddol o ddatblygiad plant, e.e. ymlyniad, galluoedd gwybyddol (y gallu i gydsynio), cydymffurfiaeth (sensitifrwydd i bwysau amlwg), posibilrwydd o fod yn agored i niwed emosiynol (pynciau sensitif megis delwedd y corff), effeithiau pryder a blinder, a chyfathrebu di-eiriau.

Terfyn ar niferoedd

Dim ond am uchafswm o 12 o blant y gall hebryngwr fod yn gyfrifol neu, os mai'r hebryngwr yw'r athro/athrawes sydd fel arfer yn darparu addysg y plentyn dan sylw hefyd, tri o blant. Fodd bynnag, gall y nifer hwn gael ei ostwng yn sylweddol yn dibynnu ar oedran, rhyw neu anghenion ychwanegol y plant, ac ati. Mae ffactorau eraill a ystyrir yn cynnwys y lleoliad, yn enwedig os yw'n lleoliad awyr agored, cyfleusterau megis ystafelloedd gwisgo ac amseroedd perfformio plant unigol. Er y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cymarebau priodol yn ystod y broses ymgeisio, dylai pob hebryngwr sicrhau hefyd fod y cymarebau y byddant yn eu rheoli yn rhesymol a phriodol o ystyried profiad, oedran ac anghenion y plant a'r trefniadau ar gyfer gofal eu plant.

Disgresiwn yr hebryngwr ar oriau gwaith estynedig a seibiannau awyr agored

Gall yr hebryngwr sy'n gofalu am blentyn ganiatáu i'r plentyn hwnnw berfformio am uchafswm o awr yn syth wedi'r amser perfformio hwyraf ar gyfer plentyn o'r oedran hwnnw, cyn belled **nad** yw'r plentyn hwnnw'n perfformio am fwy o oriau nag y caniateir. Dim ond os yw'n teimlo na fydd lles y plentyn yn cael ei niweidio y gall hebryngwr gytuno i unrhyw amser ychwanegol, a bod yr amodau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r plentyn berfformio ar ôl yr amser perfformio hwyraf ar blentyn o'r oedran hwnnw dan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth deiliad y drwydded, megis anawsterau technegol. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr hebryngwr yn rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod derbyn am yr amser gorffen hwyr y diwrnod canlynol fan bellaf.

Gall hebryngwr ddefnyddio ei ddisgresiwn hefyd i leihau un o seibiannau prydau'r plentyn i ddim llai na 30 munud, os yw'r plentyn yn perfformio y tu allan, os nad yw'r plentyn yn perfformio am fwy o oriau nag y caniateir trwy wneud hynny.

**Canllawiau i hebryngwyr**

**Gofalwch eich bod yn:**

- **gwneud yn siŵr bod y plentyn yn gyfforddus** – chi yw'r person y bydd y plentyn yn disgwyl cael arweiniad, diogelwch, esboniad a chymorth ganddo
- **siarad ar ran y plentyn os yw dan bwysau gan y cwmni cynhyrchu** – un o gryfderau mwyaf hebryngwr yw ei allu i drafod gyda'r cwmni cynhyrchu 'ar y safle' a gallu dweud na os yw'r hyn y gofynnir i'r plentyn ei wneud yn debygol o effeithio ar iechyd, lles a/neu addysg y plentyn
- **gweithredu fel hyrwyddwr y plentyn**
- **hysbysu pwy bynnag sy'n briodol am unrhyw bryderon a gwybod pwy i'w hysbysu a beth i'w wneud ym mhob achos** – dylai hebryngwyr gadw cofnod o gysylltiadau pwysig, gan gynnwys awdurdod trwyddedu'r plentyn, yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn perfformio, asiant y plentyn a rhiant/gofalwr cyfreithiol y plentyn
- **gofyn am gael gweld copi o'r drwydded** (lle mae trwydded yn ofynnol)
- **defnyddio'ch disgresiwn os yw hynny er lles pennaf y plentyn**
- **bod yn effro i bob risg bosibl i'r plentyn**
- **herio pobl a/neu ymddygiad.**

**Peidiwch â:**

- **gadael i'r plentyn berfformio os yw'n sâl**
- **gadael y plentyn ar ei ben ei hun gydag oedolyn arall** (ac eithrio ei riant/gofalwr neu athro/athrawes)
- **tynnu lluniau o'r plentyn**
- **ceisio cael llofnodion gan berfformwyr neu gyffroi wrth weld enwogion**
- **anwybyddu neu ddiystyru ymddygiad annerbyniol gan oedolion neu blant eraill**
- **gadael i'r plentyn gael ei orfodi i wneud pethau nad yw eisiau eu gwneud**
- **defnyddio iaith amhriodol neu smygu tra'ch bod ar ddyletswydd**
- **yfed alcohol neu fod dan ddylanwad alcohol tra'ch bod ar ddyletswydd**
- **gwisgo dillad amhriodol.**

(Addaswyd o *Examples of Best Practice – Child Performance and Activities Licensing by Local Authorities in England*, (Adran Addysg, 2015).

## Canllawiau cryno i athrawon drama, ymarferwyr a rheolwyr eraill

**Diogelu plant**
Rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

- roi blaenoriaeth lawn i les y dysgwyr
- eu trin gyda thegwch, urddas a pharch
- bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin ac esgeulustod
- bod yn effro i'r risgiau y gall camdrinwyr unigol neu gamdrinwyr posibl eu peri iddynt
- eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a cham-fanteisio
- gadael iddynt fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt
- cydweithredu'n llawn ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant a phobl ifanc
- hysbysu pwy bynnag sy'n briodol am unrhyw bryderon yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer diogelu plant a chwythu'r chwiban.

Rhaid i bob ymarferydd drama ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant yn ei sefydliad. Dylai'r polisïau hyn fod yn seiliedig ar *Cadw dysgwyr yn ddiogel: rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002*, ynghyd â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl* (Llywodraeth Cymru, 2016), sydd ar gael yn www.gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy. Rhaid i ysgolion a cholegau greu amgylchedd lle gall athrawon godi eu llais os byddant yn gweld arwyddion o ymddygiad amhriodol, ymddygiad anfoesegol neu gamweithredu.

**Creu amgylchedd diogel ar gyfer gwersi a gweithgareddau drama**
Rhaid i reolwyr wneud y canlynol:

- monitro ac adolygu cynlluniau gwaith athrawon drama a gwybod pa weithgaredd y bwriedir ei wneud mewn gwersi a sesiynau ymarfer
- cytuno gydag athrawon drama pa destunau y bydd plant a phobl ifanc yn eu hastudio a'u perfformio
- bod yn ymwybodol o amseroedd a lleoliadau ymarfer, a'r dysgwyr sy'n cymryd rhan
- sicrhau bod y lleoliad ar gyfer drama yn agored ac yn hygyrch i bawb o'r staff
- cynnal ymweliadau i fonitro sesiynau drama a chynorthwyo'r athro drama i'w cynnwys yng ngwaith ehangach y sefydliad
- sicrhau bod systemau ar waith i hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer plant, pobl ifanc a staff, yn enwedig os yw'r athro drama yn gweithio ar ei ben ei hun
- sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfforddus gydag unrhyw drefniadau ymarfer a gynhelir y tu allan i weithgareddau arferol yr ystafell ddosbarth
- sicrhau bod aelodau staff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau drama o bryd i'w gilydd yn unig (e.e. yn ystod drama ysgol) yn ymwybodol o'r canllawiau hyn ac yn eu dilyn
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn glir ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl mewn gwersi drama ac yn gwybod beth yw gweithdrefnau cwyno'r sefydliad, a bod ganddynt eiriolwr priodol lle bo angen.

Rhaid i ymarferwyr drama:

- greu amgylchedd agored ar gyfer addysgu drama er mwyn diogelu'r plant a'r bobl ifanc, a nhw'u hunain
- creu diwylliant agored lle mae'n naturiol a chyffredin i aelodau staff eraill neu reolwyr alw heibio i wersi a sesiynau ymarfer
- rhoi gwybod i uwch reolwyr am unrhyw sesiynau ymarfer a gynhelir y tu allan i oriau addysgu arferol
- rhoi gwybod i uwch reolwyr am unrhyw sesiynau ymarfer a gynhelir gyda dysgwyr unigol a sicrhau bod y lleoliad a'r amgylchedd lle mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gyflawni mor agored â phosibl
- sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gyfforddus gydag unrhyw drefniadau ymarfer a drefnir y tu allan i weithgareddau arferol yr ystafell ddosbarth.

**Dewis testunau drama priodol**
Rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr:

- ystyried yn ofalus a chymeradwyo'r testunau y bydd plant a phobl ifanc yn eu hastudio yn ystod y cynllun gwaith drama, ac addasu dramâu lle bo hynny'n briodol
- cymeradwyo'r testunau mae plant a phobl ifanc yn eu hastudio ar gyfer arholiadau a dilyn rheolau'r cyrff dyfarnu ynghylch cyflwyno sgriptiau byrfyfyr
- datrys unrhyw anawsterau ar y cyd ac er lles pennaf y plant a'r bobl ifanc.

**Oedolion yn cymryd rhan mewn grwpiau drama ac oedran cymysg**
Rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr sicrhau:

- bod gwersi drama'n gyfrwng i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau perfformio eu hunain
- bod gwersi drama'n canolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu ym maes drama
- mai dim ond i fodelu technegau neu i greu cymeriad newydd y dylent ymyrryd mewn sesiynau grŵp byrfyfyr, ac nad ydynt yn defnyddio'r wers fel cyfrwng ar gyfer eu perfformiad eu hunain
- nad oes unrhyw gysylltiad rhywiol o natur bersonol rhwng dysgwyr na rhwng plant ac oedolion
- wrth weithio gyda grŵp oedran cymysg, bod anghenion y dysgwyr ieuengaf neu fwyaf agored i niwed yn cael blaenoriaeth
- lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama proffesiynol, eu bod yn gwneud hynny gyda chaniatâd eu rhieni neu ofalwyr, a bod trefniadau hebrwng priodol ar waith.

**Defnyddio gwaith byrfyfyr a thechnegau dramatig eraill, gan gynnwys 'actio dull'**
Rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr:

- fonitro gwaith byrfyfyr yn ofalus i sicrhau nad ydynt yn datblygu'n amhriodol a bod y gweithgaredd yn parhau dan reolaeth yr ymarferydd

- sicrhau bod y dysgwyr yn parhau i ganolbwyntio ar y gweithgaredd
- bod yn barod i atal neu addasu unrhyw waith byrfyfyr os oes arwyddion ei fod yn mynd yn rhy bell neu os yw'r plant neu'r bobl ifanc yn anghyfforddus gyda'r hyn sy'n digwydd
- gallu cyfiawnhau'r gweithgaredd ar sail y ffaith ei fod er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc
- sicrhau nad yw'r gweithgaredd yn arwain at unrhyw niwed, cam-drin, cywilydd neu esgeulustod i blant neu bobl ifanc
- sicrhau bod y sesiynau byrfyfyr yn briodol i oedran y dysgwyr
- peidio â defnyddio 'actio dull' fel techneg ar gyfer gwaith ymarferol gyda dysgwyr cyn-16, a chyfyngu ar y defnydd ohono yn ofalus mewn gwaith ôl-16.

**Noethni a chysylltiad rhywiol agos**
Rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr:

- beidio â chaniatáu noethni neu gysylltiad rhywiol agos mewn gwersi neu gynyrchiadau drama o gwbl
- sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw gysylltiad corfforol, a'i fod yn dderbyniol
- sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw gysylltiad corfforol rhwng yr ymarferydd drama a phlentyn yn ystod gwaith dramatig, bod y plentyn wedi cytuno i'r cysylltiad hwnnw a bod yr ymarferydd yn nesáu at y plentyn mewn ffordd ofalus a synhwyrol, a hynny fesul cam.

**Iaith gref a sarhaus**
Rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr:

- gyfyngu ar y defnydd o iaith gref mewn perfformiadau gan ddysgwyr cyn-16
- defnyddio'u synnwyr cyffredin a sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw iaith a ddefnyddir o ran ei heffaith a'i diben dramatig
- sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn parhau'n briodol i lefel aeddfedrwydd y dysgwyr, natur y grŵp a pha mor agored i niwed yw dysgwyr unigol
- sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus gyda'r iaith a ddefnyddir.

**Recordio fideo a chydsyniad rhieni/gofalwyr**
Dylai ymarferwyr drama a rheolwyr gael caniatâd gan rieni/gofalwyr cyn tynnu lluniau neu recordio fideo o ddysgwyr. Mae'r un peth yn wir gyda ffotograffau a fideos o oedolion. (Bydd hyn yn cynnwys ffotograffau neu fideos a roddir ar y rhyngrwyd neu a rennir trwy unrhyw ddull electronig neu ddigidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac e-bost).

Addaswyd o *Teaching Drama: Guidance on Safeguarding Children and Child Protection for Managers and Drama Practitioners*, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/2006 (2006).

# 3. Rhestri gwirio: Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

## Adroddiad arolygu llety

Cynhelir arolygiadau er mwyn i ni fodloni ein hunain bod y llety yn lân, cyfforddus ac addas i blant, gyda digon o ystafelloedd gwely, dillad gwely, toiledau, cyfleusterau ymolchi, a chyfleusterau addas ar gyfer prydau bwyd, os bydd prydau'n cael eu bwyta yn y llety.

**Gall yr awdurdod roi unrhyw amod sy'n addas yn eu barn nhw i ddod â chyfleuster neu eitem benodol o gyfarpar i'r safon sy'n ofynnol yn eu barn nhw ar gyfer lles y plentyn (Rheoliad 18)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr arolygiad** | |
| **Amser yr arolygiad** | |
| **Lleoliad yr arolygiad** | |
| **Enw'r swyddog sy'n ymweld** | |
| **Enw'r awdurdod sy'n cyflawni'r arolygiad** | |
| **Enw'r cynhyrchiad** | |
| **Enw(au) plant (plentyn)** | |
| **Enw'r hebryngwr a'r awdurdod y cofrestrwyd ag ef** | |
| **Enw'r awdurdod sy'n gofyn am yr arolygiad** | |

| Manylion yr arolygiad: | |
|---|---|
| **Ystafell(oedd) gwely** | |
| **Ystafell ymolchi ac/neu en suite** | |
| **Toiled(au)** | |
| **Larwm(larymau) mwg** | |
| **Diffoddwr(wyr) tân** | |
| **Gweithdrefnau gadael ac allanfeydd** | |
| **Dodrefn** | |
| **Cyflwr addurnol** | |
| **Ffôn, Wi-fi, ac ati** | |
| **Teledu, DVD, ac ati** | |
| **Diogelwch** | |
| **A oes gan yr awdurdod arolygu unrhyw bryderon am y llety hwn?** | |
| **Camau sy'n ofynnol gan yr awdurdod arolygu** | |
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Llofnod y swyddog** | |

## Rhestr wirio ar gyfer hebryngwyr trwyddedig – cyrraedd y lleoliad

| | |
|---|---|
| • Cyrhaeddwch cyn y plant, yn enwedig os nad ydych chi'n gyfarwydd â'r lleoliad. Bydd hyn yn rhoi amser i chi edrych o gwmpas a chyfarfod pobl eraill sy'n cymryd rhan yn y digwyddiad.<br><br>• Cyflwynwch eich hun i ddeiliad y drwydded neu ei ddirprwy ac unrhyw unigolion perthnasol eraill (e.e. rheolwyr llwyfan/llawr, gwisgwyr, ac ati).<br><br>• Archwiliwch yr holl fannau y bydd y plant yn ymweld â nhw am beryglon.<br><br>• Archwiliwch yr allanfeydd tân i weld a oes modd mynd drwyddynt yn hawdd.<br><br>• Archwiliwch sut sŵn mae'r larwm tân yn ei wneud a threfnwch ddril tân sy'n cynnwys y plant.<br><br>• Archwiliwch y cyfleusterau cymorth cyntaf ac a oes swyddog cymorth cyntaf cymwys ar y safle.<br><br>• Gwiriwch fod yr ystafelloedd newid, toiledau, ystafell ysgol, ystafell orffwys, trefniadau prydau ac unrhyw gyfleusterau eraill yn addas ac i ffwrdd o'r rhai a ddefnyddir gan aelodau o'r gynulleidfa.<br><br>• Wrth archwilio'r ystafelloedd newid, cofiwch mai dim ond gyda phlant eraill o'r un rhyw y mae plant pump oed a hŷn yn cael newid.<br><br>• Cadwch mewn cysylltiad â hebryngwyr eraill sydd wedi'u cyflogi, a gweithiwch fel tîm.<br><br>• Gwnewch restr o enwau'r plant y byddwch chi'n gofalu amdanynt. Os oes mwy na 12 o blant, mae'n rhaid i bob hebryngwr fod yn siŵr pwy sy'n gofalu am ba blant. | • Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn a nodwch unrhyw amodau arni. Mae'n rhaid i gopi deiliad y drwydded fod ar gael yn y lleoliad lle cynhelir y digwyddiad.<br><br>• Gofalwch fod rhestr o fanylion cyswllt brys a chartref y plant ar gael y gallwch chi gael gafael arni bob amser rhag ofn bod angen i chi gysylltu â'r rhiant/gofalwr.<br><br>• Holwch ddeiliad y drwydded a oes gan y plentyn broblemau neu ofynion meddygol. Mae'r wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol ond, fel hebryngwr, bydd angen i chi wybod. Os yw plentyn yn cael ei daro'n wael, efallai y bydd rhywbeth yn y nodiadau a fydd yn rhoi awgrym i chi beth yw'r broblem. Os yw'r plentyn yn cael ei gymryd i'r ysbyty neu'n cael ei weld gan feddyg, gall y ffaith bod plentyn yn cymryd meddyginiaeth gael effaith ar y driniaeth. Efallai y bydd angen i chi atgoffa'r plentyn i gymryd ei feddyginiaeth ar adeg benodol.<br><br>• Os ydych chi'n anhapus gydag unrhyw gyfleusterau neu drefniadau, mae'n rhaid i chi fynegi'r pryderon wrth ddeiliad y drwydded a thrafod gwell amodau. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, mae'n rhaid i chi ystyried a ydych chi'n mynd i ganiatáu i'r plant gymryd rhan yn y digwyddiad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i chi hysbysu'r awdurdod lleol priodol cyn gynted â phosibl gyda manylion y broblem/problemau a'r camau a gymerwyd.<br><br>• Gwiriwch bolisi amddiffyn plant y cwmni a byddwch yn glir beth mae'n ei olygu. |

**Rhestr wirio wrth gyrraedd y lleoliad**
Efallai y bydd hi'n ddefnyddiol i chi i lungopïo'r dudalen hon i'w defnyddio unrhyw bryd y byddwch chi'n gweithio.

| **Enw'r lleoliad:** | **Tic** |
|---|---|
| Ymgyfarwyddwch â chynllun y lleoliad | |
| Nodwch bob ardal beryglus | |
| Chwiliwch am bob allanfa dân | |
| Gofynnwch am gael clywed sŵn y larwm | |
| Trefnwch ddril tân (gyda larwm) ar gyfer y plant | |
| Chwiliwch am y cyfleusterau cymorth cyntaf | |
| Holwch pwy yw cyswllt y cynhyrchiad ar gyfer pryderon/problemau | |
| Archwiliwch ystafelloedd newid (rhai ar wahân ar gyfer plant pump oed a hŷn) | |
| Chwiliwch am y toiledau a'u harchwilio | |
| Chwiliwch am yr ystafelloedd gorffwys a'u harchwilio | |
| Chwiliwch am yr ysgoldy (os yn gymwys) a'i harchwilio | |
| Gwiriwch y trefniadau prydau bwyd | |
| Cadarnhewch gyfanswm y plant | |
| Cadarnhewch gyfanswm yr hebryngwyr | |
| Gofynnwch am restr o enwau'r plant | |
| Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn | |
| Gofalwch fod gennych chi rifau cyswllt cartref brys ar gyfer pob plentyn | |
| Pan fo hynny'n berthnasol, gofalwch fod gennych chi fanylion problemau meddygol a/neu feddyginiaeth pob plentyn | |
| Gofalwch fod oedolyn awdurdodedig yn llofnodi pob plentyn i mewn ac allan | |

Gwiriwyd gan: ____________________

Dyddiad: ____________________

## Rhestr wirio ar gyfer awdurdod trwyddedu neu awdurdod sy’n derbyn – perfformiad

| | |
|---|---|
| **Enw’r cynhyrchiad** | |
| **Enw’r cwmni cynhyrchu** | |
| **Enw’r swyddog arolygu** | |
| **Dyddiad yr ymweliad** | |
| **Lleoliad yr ymweliad** | |
| **Cofnodi enw pob plentyn sy’n bresennol ac enw’r awdurdod a roddodd eu trwydded(au) iddynt (gweler y daflen amgaeedig)** | |
| **1. Hebryngwyr** | |
| a. Ydy trwydded yr hebryngwr ar gael? Os nad yw, pam ddim? | |
| b. Faint o blant sydd yng ngofal pob hebryngwr? | |
| c. Ydy’r trefniadau goruchwylio’n foddhaol? Gweler y nodyn ynghlwm | |
| ch. Oes unrhyw salwch neu anaf wedi bod ers yr ymweliad diwethaf? | |
| d. Os felly, beth wnaed yn ei gylch? | |
| dd. Ydy’r amgylchiadau wedi’u cofnodi? | |
| e. A fu yna broblemau eraill? | |
| f. Beth wnaed i’w datrys? | |
| ff. Oes gan hebryngwyr swyddog cyswllt ar gyfer pob rhiant/gofalwr? | |
| g. Pa drefniadau sydd yna ar gyfer cymorth cyntaf a chymorth meddygol? | |
| ng.Oes gan y cwmni cynhyrchu neu’r sefydliad bolisi amddiffyn plant? | |
| h. Oes aelod staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant? Rhowch enw’r unigolyn dynodedig | |

| | |
|---|---|
| **2. Trefniadau teithio** | |
| a. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud i'r plentyn(plant) ddod i'r theatr, ac ati? | |
| b. Beth yw'r trefniadau ar gyfer mynd adref? Ydyn nhw'n foddhaol? | |
| c. Os nad ydyn nhw, pa newidiadau ddylid eu gwneud? | |
| **3. Cofnodion** | |
| a. Oes trwydded ar gyfer pob plentyn sy'n bresennol? | |
| b. Ydyn nhw'n cael eu cadw'n ddigonol? | |
| c. Os nad ydynt, pa newidiadau ddylai gael eu gwneud? | |
| ch. Pwy sy'n gyfrifol am eu cadw? (Heblaw am diwtor preifat) | |
| **4. Llety** | |
| a. Oes gan bob plentyn ystafelloedd newid ar wahân i rai oedolion? | |
| b. Oes gan ferched a bechgyn dros bump oed ystafelloedd newid ar wahân ar gyfer y ddau ryw? | |
| c. Ydy'r ystafelloedd newid yn lân, gydag awyru digonol ac yn foddhaol ar y cyfan? | |
| ch. Oes toiledau ar wahân ar gyfer y plant? | |
| d. Ydy'r toiledau yn lân a boddhaol? | |
| dd. Ydy'r cyfleusterau ymolchi/cawod ar gyfer plant yn lân, yn foddhaol ac a oes digon ohonynt? | |
| e. Ydy'r cyfleusterau ymolchi/cawod ar wahân i rai oedolion? | |
| f. Ydy'r plant yn defnyddio llety arall, e.e. ystafelloedd gorffwys, ystafell werdd? | |
| ff. Ydy'r rhain yn foddhaol? | |
| g. Pan nad yw'r plant yn gweithio, a ydynt yn cael eu diddanu'n addas a digonol? | |

| | |
|---|---|
| ng. Oes unrhyw newidiadau wedi bod yn y llety ers yr ymweliad diwethaf? | |
| **5. Addysgu preifat (os yw wedi'i ddarparu a'i gynnwys yn y drwydded a'r cais**) | |
| a. Ydy'r athro/athrawes wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol? Rhowch enw'r athro/athrawes | |
| b. Ydy'r llety addysgu yn foddhaol? | |
| c. Wnaeth y swyddog wirio, llofnodi a rhoi'r dyddiad ar y cofnodion? | |
| ch. Ydy'r addysgu'n ymddangos yn ddigonol? | |
| d. Ydy'r athro/athrawes wedi wynebu unrhyw broblemau? | |
| dd. Sut dylid datrys y rhain? | |
| **6. Plant (gofalwch fod pob plentyn yn cael ei weld)** | |
| a. Ydyn nhw'n ymddangos yn hapus? | |
| b. Ydy'r berthynas â'r hebryngwr a'r athro/athrawes yn ymddangos yn foddhaol? | |
| **7. Disgresiwn yr hebryngwr a gweithio yn yr awyr agored** | |
| a. Ydy'r hebryngwr wedi caniatáu amser gweithio ychwanegol? Os felly, rhowch fanylion. Pryd hysbyswyd yr awdurdod trwyddedu? | |
| b. Yn yr awyr agored – ydy plant yn cael eu hamddiffyn rhag tywydd anffafriol? | |
| c. Yn yr awyr agored – a oes gan blant ddillad priodol? | |
| **8. Cwynion** | |
| a. Oes gan y swyddog sy'n ymweld unrhyw gwynion ar ôl yr arolygiad? | |
| b. Pa gyfarwyddiadau/cyngor a roddwyd o ganlyniad, ac i bwy? | |

| **9. Sylwadau cyffredinol** | |
|---|---|
| a. Ydy gofal/goruchwyliaeth y plant yn ymddangos yn foddhaol? | |
| b. Ydych chi'n meddwl bod y plant yn cael eu gweithio'n rhy galed? | |
| c. Sylwadau cyffredinol, os o gwbl | |

**Llofnod y swyddog sy'n ymweld:** **…………………………………………...**

**Dyddiad yr adroddiad:** **……………………..**

# 4. Ffurflenni cais enghreifftiol: Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

## Ffurflen gais enghreifftiol am drwydded perfformiadau a gweithgareddau plant (Cymru) ar gyfer plant sy’n [byw/cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd] o fewn ffiniau Cyngor [dinas/sir/bwrdeistref sirol]

| | |
|---|---|
| **Cais am drwydded ar gyfer (enw’r plentyn)** | |
| **i gymryd rhan mewn perfformiad/ gweithgaredd a drefnir gan (enw’r cynhyrchiad/sefydliad)** | |
| **a wneir gan (enw’r ymgeisydd)** | |

**Noder:** Dylid cwblhau a chyflwyno’r ffurflen hon i’r awdurdod trwyddedu dim llai na **21 diwrnod** cyn y perfformiad neu weithgaredd cyntaf y gofynnir am drwydded ar ei gyfer, oherwydd gallai’r awdurdod trwyddedu wrthod rhoi trwydded fel arall.

Mae cyfeiriadau at “y Rheoliadau” yn golygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) 2015.

### Rhan A: Gwybodaeth i’w darparu gan yr ymgeisydd mewn perthynas â’r plentyn

Gweler rheoliad 4 a Rhan 1 o Atodlen 2 y Rheoliadau.

Fel arfer, bydd angen i’r ymgeisydd gael yr wybodaeth hon gan riant/gofalwr y plentyn. Mae angen i riant/gofalwr y plentyn lofnodi’r ffurflen wedi’i chwblhau, ond yr ymgeisydd ddylai gyflwyno’r ffurflen heblaw bod y rhiant/gofalwr yn gyfrifol hefyd am drefnu’r perfformiad neu’r gweithgaredd.

| | |
|---|---|
| A1. Enw’r plentyn | |
| A2. Cyfeiriad cartref y plentyn | |
| A3. Dyddiad geni’r plentyn | |

| | |
|---|---|
| A4. Enw a chyfeiriad yr ysgol y mae’r plentyn yn mynd iddi ar hyn o bryd<br><br>**neu**<br><br>Os nad yw’r plentyn yn mynd i’r ysgol, enw a chyfeiriad athro/athrawes breifat y plentyn | |

| | |
|---|---|
| A5. Manylion pob trwydded a roddwyd ar gyfer y plentyn yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr, neu unrhyw awdurdod addysg yn yr Alban, heblaw am yr awdurdod trwyddedu y gwneir y cais iddo[1], yn nodi:<br>a. enw'r awdurdod<br>b. dyddiad rhoi'r drwydded<br>c. dyddiad a natur y perfformiadau neu weithgareddau | |

| | |
|---|---|
| A6. Manylion pob cais mewn perthynas â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod arall yng Nghymru neu Loegr, neu unrhyw awdurdod addysg yn yr Alban. Manylion pob cais mewn perthynas â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod arall yn y 12 mis diwethaf heblaw am yr awdurdod trwyddedu y gwneir y cais iddo, yn nodi -<br>a. enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg<br>b. Y rhesymau (os yn hysbys) dros wrthod rhoi trwydded | |

| | |
|---|---|
| A7. Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd angen trwydded ar eu cyfer [2] y cymerodd y plant ran ynddynt yn ystod y 12 mis blaenorol, gan gynnwys cynyrchiadau a oedd yn cael eu heithrio o'r gofyniad i gael trwydded, yn nodi:<br>a. dyddiad y perfformiad(au)<br>b. nifer dyddiau'r perfformiad<br>c. teitl y perfformiad(au)<br>ch. enw a chyfeiriad y person(au) sy'n gyfrifol am y cynhyrchiad(au) | |

[1] Dim ond os yw'r plentyn wedi symud rhwng awdurdodau yn y 12 mis diwethaf y bydd hyn yn berthnasol.

[2] Adran 37(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963: mae hyn yn cynnwys perfformiadau a drefnir gan ysgolion, lle mae cymeradwyaeth corff o bersonau wedi'i roi, a lle mae'r plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod yn y chwe mis cyn y perffmormiad perthnasol.

| | |
|---|---|
| A8. Dyddiadau (os o gwbl) y mae'r plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais oherwydd ei fod yn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, gan gynnwys rhai wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael trwydded | |

| | |
|---|---|
